Adroddiad Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis

Cynhaliwyd Eisteddfod Gadeiriol Rhydlewis eleni ar Sadwrn 22ain Chwefror. Cafwyd Eisteddfod lwyddiannus a hwylus iawn gyda rhif y cystadleuwyr a'r gynulleidfa ar i fyny gryn dipyn o gymharu a llynedd.

Beirniaid eleni oedd - Cerdd; Gwyn Nicholas. Adrodd a Llenyddiaeth; Karen Owen. Arlunio i blant; Gwen Davies. Llenyddiaeth i blant; Emyr Davies. Y Cyfeilydd oedd Gareth Wyn Thomas. Llywydd y dydd oedd Ben Lake A.S. a chafwyd ganddo araith bwrpasol iawn a chyfraniad hael tuag at y coffrau.

Enillydd y gadair, yn rhoddedig gan Vera Davies, oedd Terwyn Tomos, a Thlws Llenyddiaeth yr Ifanc ynghyd â gwobr ariannol, yn rhoddedig gan Rhian Davies er cof am Dai Rees Davies (Dai Pendre), oedd Caleb Rees. Cymerwyd at y seremoniau gan Siwsan Dafis ac Emyr Davies.

Aeth cwpan Her Hilary Jones am ganu Emyn i Guto Lewis a'r Tarian Nancy Jones am offeryn Cerdd i Mali Gerallt. Enillydd yr Her Unawd a Tharian Coffa Tom a Peggy Rees oedd Ceri Davies ac enillwyd yr Her Adroddiad gan Alwena Owen. Ceri Davies hefyd enillodd Cenwch i'm yr Hen Ganiadau. Cafwyd diweddglo arbennig i noson lwyddiannus a safonol iawn. Diolch i bawb a wnaeth gyfraniad mewn unrhyw fodd i wneud yr Eisteddfod yn llwyddiant.